

# Cylchlythyr | Circular

## Llesiant ac iechyd a chymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr addysg uwch 2023/24

**Dyddiad:** 15 Medi 2023  
**Cyfeirnod:** W23/23HE  
**At:** Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru  
Penaethiaid colegau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol  
yng Nghymru  
**Ymateb erbyn :** 27 Medi 2024  
**Cyswllt:** Enw: Ryan Stokes, Amanda Phillips  
E-bost: [ryan.stokes@hefcw.ac.uk](mailto:ryan.stokes@hefcw.ac.uk)  
[amanda.phillips@hefcw.ac.uk](mailto:amanda.phillips@hefcw.ac.uk)

Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu gwybodaeth ynglŷn â sut y bydd CCAUC yn dyrannu £2.3m o gyllid ychwanegol ar gyfer llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, a chymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch.

Mae'r cyllid hwn yn 2023/24 ar gyfer prifysgolion a cholegau a gyllidir yn uniongyrchol yng Nghymru.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch  
mewn fformat hygyrch arall, anfonwch  
e-bost i [info@hefcw.ac.uk](mailto:info@hefcw.ac.uk).



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

## Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu gwybodaeth ynglŷn â sut y bydd CCAUC yn dyrannu £2.3m ychwanegol yn 2023/24. Mae'r cyllid hwn ar gyfer prifysgolion a cholegau a gyllidir yn uniongyrchol wedi'i fwriadu i gefnogi llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, a rhoi cymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr addysg uwch.
2. Dylai prifysgolion ddarllen y cylchlythyr hwn ar y cyd â'n cylchlythyr W23/24HE yn dyrannu £2m yn 2023/24 i gefnogi strategaethau llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, a gyhoeddwyd hefyd ym mis Awst 2023.
3. I brifysgolion, mae'r broses fonitro sy'n gysylltiedig â'r cylchlythyr hwn, ar gyfer £2.3m, wedi'i chyfuno â'r broses fonitro ar gyfer y £2m o gyllid strategaethau llesiant ac iechyd 2023/24, i'w gwneud yn bosibl adrodd mewn modd cydlynus ar lesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl.
4. Rhaid i brifysgolion gysoni canlyniadau sy'n deillio o'r cyllid hwn o £2.3m gyda'u strategaethau a chynlluniau cyflawni llesiant ac iechyd presennol.
5. Ar gyfer colegau a gyllidir yn uniongyrchol darperir templed monitro ar gyfer y dyraniad hwn o £2.3m gyda'r cylchlythyr hwn.

## Y cefndir a'r cyd-destun polisi

6. Cyfeirir at y dyraniadau o £2.3m a £2m yn [Llythyr Cylch Gwaith CCAUC 2023-24](#) oddi wrth Weinidog y Gymraeg ac Addysg:  
*'Mae cefnogi iechyd a lles myfyrwyr a staff yn flaenoriaeth barhaus i mi. Rwy'n teimlo'n falch o'r gefnogaeth y mae ein sefydliadau wedi'i darparu a'r dulliau arloesol o gefnogi lles meddyliol yn benodol. Rwyf unwaith eto wedi clustnodi £2m o fewn dyraniad cyllid CCAUC i sicrhau bod y gwaith hanfodol hwn yn parhau ar ôl y pandemig ac wrth i'r argyfwng costau byw barhau. Rwy'n falch o allu dyfarnu £2.3m ychwanegol, sydd hefyd wedi'i glustnodi i gefnogi'r agenda iechyd meddwl a lles ar draws y sector'.*
7. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hymateb ([Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar gymorth Iechyd Meddwl mewn addysg uwch](#)) i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar [Gymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch](#). Er bod y cylch gwaith a'r capasiti i ganlyn arni â llawer o'r argymhellion hyn yn nwylo'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY), rydym yn cefnogi gweithgarwch tanategol fel y mae'n berthnasol i addysg uwch.
8. Yn dilyn cyllid cychwynnol trwy gylchlythyr [W19/11HE](#), o fis Awst 2023 rydym yn darparu cyllid grant ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb o fodel gwasanaeth iechyd meddwl i fyfyrwyr i ddarparu rhagor o wybodaeth a sicrwydd ar gyfer CCAUC ac, yn ddiweddarach, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY). Darperir manyleb yr astudiaeth ddichonoldeb yn **Atodiad A**. Bydd yr astudiaeth

ddichonoldeb yn cyfrannu at oleuo ein hymateb i'r argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Gymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch i:

*'adeiladu ar y dysgu a'r gwerthusiad o'r Gwasanaeth Cyswllt Prifysgolion ar gyfer Materion Iechyd Meddwl yng Nghaerdydd a dechrau cynllunio ar gyfer cyflwyno'r model hwn yn llawn ledled Cymru. Fel rhan o'r gwaith cynllunio hwn, dylai cyllid hirdymor gael ei ymrwmo i gefnogi'r gwaith o gyflwyno, datblygu a chynnal a chadw'r model hwn ledled Cymru'.*

9. Bydd tîm yr astudiaeth ddichonoldeb, sydd i'w gwblhau erbyn mis Ionawr 2024, yn cydweithio'n agos gyda, ac yn cael gwybodaeth gan, brifysgolion ledled Cymru. Pe bai camau gweithredu tanategol pellach yn cael eu hadnabod ar gyfer 2023/24 yn dilyn yr astudiaeth ddichonoldeb, byddwn yn darparu gwybodaeth a chanllawiau ychwanegol. Rydym yn disgwyl i'r astudiaeth ystyried datblygiadau llesiant ac iechyd perthnasol mewn addysg bellach. Dylai gwersi a ddysgwyd o'r ddau sector oleuo ystyriaethau polisi a chyllid yn y dyfodol ar gyfer y CADY.
10. Bydd colegau a gyllidir yn uniongyrchol yn cael cymorth o'r dyfarniad ychwanegol o £2.3m fel a nodir yn y cylchlythyr hwn, i gynnal parhad gyda'r dyraniadau tebyg a wnaed yn 2022/23. Nes bod y CADY wedi cael ei sefydlu, bydd colegau addysg bellach yn dal i gael dyraniadau yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod prifysgolion a cholegau'n gallu cael budd o'r gwersi a ddysgwyd ac arfer ym mhob sector.

## **Dyraniadau a'u diben**

### Colegau a gyllidir yn uniongyrchol

11. Dylai colegau ddefnyddio'u dyraniadau i adolygu a pharhau i roi cymorth ar gyfer gweithgareddau a gwasanaethau effeithiol a gyflwynir trwy ddyraniad cyllid tebyg a ddarparwyd ym mis Ionawr 2023 (gweler cylchlythyr [W23/01HE: Llesiant ac iechyd a chymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr addysg uwch](#)). Dylai gweithgareddau 2023/24 gynnwys:
  - gwella a hyrwyddo gwasanaethau cyngor a gwybodaeth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch.
  - rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr trwy estyn cyllid caledi neu adnoddau eraill i gefnogi'r rhai sy'n profi pwysau ariannol.
  - cefnogi ymgeiswyr posibl ac ymgeiswyr sy'n pontio i ddarpariaeth addysg uwch, yn ogystal â myfyrwyr presennol.
  - mesurau i helpu i fynd i'r afael ag effeithiau'r codiadau mewn costau byw ar fyfyrwyr addysg uwch o bob oed a'r rhai sy'n pontio i addysg uwch.
  - estyn, gwella neu ddarparu cymhorthdal ar gyfer cynhyrchion urddas mislif a hylendid personol a/neu wasanaethau golchi dillad ar gyfer myfyrwyr.
  - cydweithio gydag Undebau Myfyrwyr neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt i sicrhau bod cymorth a roddir yn diwallu anghenion myfyrwyr; a
  - chynnwys myfyrwyr â phrofiad o heriau ariannol yn y broses o adolygu'r cymorth a roddir.

## Prifysgolion

12. Dylai prifysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i:
- roi cymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch, trwy estyn cyllid neu adnoddau eraill ar gyfer y rhai sy'n wynebu pwysau ariannol, sy'n effeithio ar eu profiad fel myfyrwyr, eu llesiant, eu hiechyd, eu gallu i barhau a'u llwyddiant;
  - darparu adnoddau i ymgysylltu'n effeithiol â'r astudiaeth ddichonoldeb o fodel gwasanaeth iechyd meddwl i fyfyrwyr ac unrhyw ddatblygiadau cysylltiedig yn 2023/24. Bydd hyn yn cynnwys, ymhlith eraill:
    - mynychu cyfarfodydd a chyfrannu at drefniadau llywodraethu, fel y bo'n briodol;
    - cyfrannu at ddadansoddi anghenion hyfforddiant iechyd meddwl;
    - cyfrannu at asesu dichonoldeb gweithredu cytundebau rhannu data yn rhanbarth y Brifysgol a chyda phartneriaid rhanbarthol;
    - cyfrannu at asesu'r potensial ar gyfer, a gwerth mynegai difrifoldeb iechyd meddwl cyffredin;
    - ymateb i geisiadau am wybodaeth a chynghor i oleuo canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion yr astudiaeth ddichonoldeb;
    - ymgysylltu â gwasanaethau iechyd rhanbarthol ac asiantaethau llesiant, iechyd ac iechyd meddwl y trydydd sector i archwilio'r potensial ar gyfer modelau cydwasanaethau;
    - mapio gwasanaethau a phrosesau'r Brifysgol yn erbyn datblygiadau'r astudiaeth ddichonoldeb i adnabod synergeddau a heriau ar gyfer cysoni;
    - profi modelau cymorth iechyd meddwl;
  - adolygu gwasanaethau sylfaenol i gefnogi llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, ymgeiswyr a myfyrwyr, a'u hyrwyddo ar wefannau;
  - gweithio gydag undebau i gefnogi iechyd meddwl a llesiant staff, gan gynnwys wrth iddynt roi cymorth effeithiol i fyfyrwyr fel rhan o ddull sefydliad cyfan o ymdrin â llesiant ac iechyd;
  - hyrwyddo a darparu hyfforddiant hygyrch i staff ar iechyd meddwl<sup>1</sup>;
  - darparu hyfforddiant iechyd meddwl yn Gymraeg i staff a myfyrwyr;
13. Nid ydym yn disgwyl i'r holl brifysgolion fod yn yr un sefyllfa ar ddiwedd 2023/24 gan ein bod yn cydnabod y bydd parodrwydd i fod yn rhan o fodel neu fodelau cyffredin o gymorth iechyd meddwl i fyfyrwyr yn amrywio fesul rhanbarth ac y gallai ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth prifysgolion ddylanwadu ar hynny.

### **Cymorth ariannol i fyfyrwyr addysg uwch: prifysgolion a cholegau**

14. Rydym yn annog prifysgolion a cholegau yn gryf i weithio gyda'u Hundebau Myfyrwyr neu gorff cyfatebol i adeiladu ar fesurau i fynd i'r afael â'r codiadau cyflym mewn costau byw sy'n effeithio ar lesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl ac iechyd corfforol. Dylai'r holl fyfyrwyr, gan gynnwys myfyrwyr ôl-radd a rhyngwladol, gael eu hystyried ar gyfer cymorth, yn amodol ar yr angen.

---

<sup>1</sup> Mae'r cyllid hwn yn darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer hyfforddiant y tu hwnt i'r adnoddau o'r cyllid o £2m ar gyfer strategaethau llesiant ac iechyd yn 2023/24. Dylai hyfforddiant a gyllidir o'r dyraniad hwn gael ei nodi'n glir fel hyfforddiant o'r fath yn yr wybodaeth fonitro a gyflwynir gan y sefydliad.

15. Rhaid i brifysgolion a cholegau sicrhau bod cymorth ariannol i fyfyrwyr yn cael ei oleuo gan asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

Gall cymorth ariannol gynnwys:

- i. cynyddu a/neu estyn argaeledd, a meini prawf ar gyfer, cymorth 'caledi' neu gymorth ariannol arall i'r myfyrwyr sydd fwyaf mewn angen;
  - ii. sicrhau bod darpar ymgeiswyr a myfyrwyr agored i niwed yn cael eu cefnogi â gwybodaeth, cyngor a chyllid, fel y bo'n briodol, gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal, gofalwyr, y rhai sy'n profi trais, cam-drin domestig, trais rhywiol, a cheiswyr lloches a ffoaduriaid;
  - iii. sicrhau bod darpar ymgeiswyr a myfyrwyr â nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, yn ymwybodol o'r holl gymorth, gwybodaeth a chyngor ariannol sydd ar gael ac yn berthnasol iddynt;
  - iv. sicrhau bod yr holl wybodaeth, cyngor a gwasanaethau ariannol ar gael ac yn hygyrch yn Gymraeg;
  - v. cynnwys myfyrwyr â phrofiad o heriau ariannol yn y broses o ddatblygu ac adolygu gwasanaethau cymorth ariannol;
  - vi. darparu gweithgareddau, adnoddau, gwasanaethau a/neu gynhyrchion am gost isel neu ddim cost i ddarpar ymgeiswyr a myfyrwyr sy'n profi pwysau ariannol, gan gynnwys lle gallai hyn effeithio ar lesiant, iechyd, iechyd meddwl, ymdeimlad o berthyn neu unigedd, profiad myfyrwyr, eu gallu i barhau a'u llwyddiant.
16. Er y gall cymorth a gweithgareddau 'unigol' fod o fudd i fyfyrwyr cyfredol yn bennaf, gallai peth darpariaeth gefnogi darpariaeth llesiant, iechyd ac iechyd meddwl yn y tymor hwy. Gallai cynaliadwyedd tymor hwy gynnwys darparu gwybodaeth ac adnoddau ar y we.

## Dulliau dyrannu a ffrâm amser gwariant

17. Darperir dyraniadau ar gyfer prifysgolion a cholegau yn **Atodiad B**.
18. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ryddhau mewn un gyfran ym mis Medi 2023 gan gydnabod anghenion cymorth myfyrwyr o'r tymor cyntaf a llinellau amser ar gyfer cyfraniadau gan brifysgolion i'r astudiaeth ddichonoldeb iechyd meddwl.
19. Byddwn yn gwneud y dyraniad hwn i brifysgolion a cholegau yn seiliedig ar gyfrif pennau'r holl fyfyrwyr a gymerwyd o gofnod myfyrwyr HESA 2021/22, ni waeth o ba wlad y maent yn huanu, na beth fo'u dull na lefel astudio. Mae'r dull dyrannu hwn yn defnyddio'r un sail â'r dyraniadau ar gyfer cyllid strategaethau llesiant ac iechyd.
20. I ddyrannu cymorth ariannol ychwanegol tebyg gyda llesiant ac iechyd ar gyfer myfyrwyr addysg uwch yn gynharach yn 2023, fe ysgrifennom ni at Is-Gangellorion a Prifysgolion Cymru ym mis Rhagfyr 2022, i'w hysbysu ynghylch y cyllid hwn a'n dull dyrannu bwriadedig. Ni chawsom unrhyw wrthwynebiadau i'r fethodoleg gyllido yr ydym yn ei defnyddio eto ar gyfer y dyraniad hwn.

21. Yn [Llythyr Cylch Gwaith Diwygiedig CCAUC](#) ym mis Rhagfyr 2022, gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni ystyried sut y mae manteision y mesurau'n ymestyn i ddysgwyr a myfyrwyr ar draws y system ôl-16. Felly, rydym yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer colegau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol.
22. Rhaid i brifysgolion sicrhau bod eu myfyrwyr mewn darparwyr addysg uwch partner yn cael eu cynnwys mewn darpariaeth a gefnogir gan y cyllid hwn ac yn cael budd ohoni.
23. Gan bod rhaid i'r cyllid hwn gael ei wario'n llawn erbyn 31 Gorffennaf 2024, ein barn ni yw bod recriwtio staff newydd trwy brosesau teg a thryloyw'n annhebygol o ddiwallu'r angen i ymateb i'r cyflymder cyflawni sy'n ofynnol gan linellau amser yr astudiaeth ddichonoldeb.

### Amodau'r cyllid

24. I roi cyfrif am gyllid cyhoeddus, ceidw CCAUC a/neu'r CADY yr hawl i:
  - adhawlio unrhyw gyllid i brifysgolion neu golegau nad yw wedi cael ei wario'n llawn erbyn mis Gorffennaf 2024;
  - adhawlio cyllid lle nad yw gwybodaeth fonitro a gyflwynwyd gan brifysgolion a cholegau ar gyfer 2023/24 yn foddhaol i roi cyfrif am y defnydd o'r cyllid neu fod y cyllid heb gael ei ddefnyddio at y dibenion a nodir yn y cylchlythyr hwn;
  - adhawlio cyllid lle mae prifysgolion yn methu ag ymgysylltu'n effeithiol â'r astudiaeth ddichonoldeb a gyllidwyd gan CCAUC;
  - dal cyllid yn ôl neu adhawlio cyllid lle mae ffurflenni monitro prifysgolion a cholegau ar gyfer 2022/23 yn erbyn dyraniadau a ddarparwyd trwy [W23/01HE: Llesiant ac iechyd a chymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr addysg uwch](#) yn anfoddhaol, yn cynnwys tanwariant neu lle na ddefnyddiwyd cyllid at y dibenion y'i bwriadwyd ar eu cyfer.
25. Gall prifysgolion sydd wedi ymrwymo i barhau i gyllido partneriaeth ranbarthol iechyd meddwl myfyrwyr hyd at fis Gorffennaf 2024 ddefnyddio rhan o'r cyllid hwn i gyflawni'r ymrwymadau hynny, yn ogystal â rhoi cymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr fel a amlinellir ym mharagraffau 14-16.
26. Rhaid i brifysgolion gynnwys yr holl weithgareddau, gwasanaethau neu adnoddau a gyllidir yn eu strategaethau a gwybodaeth fonitro ar gyfer llesiant ac iechyd 2023/24 (gweler **Atodiad B** ac **Atodiad B1** sy'n cyd-fynd â chylchlythyr W23/24HE: Cynlluniau cyflawni strategaethau llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl).

### Monitro

27. Byddwn yn monitro'r modd y caiff y cyllid hwn ei wario a'i ddefnyddio. Gall ein gwaith monitro gael ei ddefnyddio i oleuo ein hadroddiadau i Lywodraeth Cymru neu i rannu arfer diddorol.
28. I golegau mae templed monitro ac astudiaethau achos wedi'i atodi fel **Atodiad C**.

29. I brifysgolion rydym yn cyfuno'r broses fonitro ar gyfer y cyllid hwn â'r broses fonitro ar gyfer cyllid cynlluniau cyflawni strategaethau llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl. Caiff templed monitro cyfunol y prifysgolion ar gyfer y ddau ddyraniad ei ddarparu gyda'r cylchlythyr cyllid strategaethau llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl, 2023/24.
30. Mae monitro cyfunol wedi'i fwriadu i leddfu baich adrodd yn erbyn dyraniadau llesiant ac iechyd ac mae'n cydnabod y bydd cynlluniau cyflawni prifysgolion yn ysgogi'r modd y cynllunnir ac y defnyddir y cyllid a ddarperir trwy'r cylchlythyr hwn.

### Amserlen

Camau Gweithredu	Dyddiad
CCAUC i ddyrannu cyllid	Medi 2023
Prifysgolion a cholegau i gyflwyno templedi monitro ac astudiaethau achos	27 Medi 2024

### Rhagor o wybodaeth / ymatebion i

31. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â [ryan.stokes@hefcw.ac.uk](mailto:ryan.stokes@hefcw.ac.uk)  
Cyflwynwch wybodaeth fonitro i [amanda.phillips@hefcw.ac.uk](mailto:amanda.phillips@hefcw.ac.uk)

### Asesu effaith ein polisiau

32. Rydym wedi dechrau asesiad o'r effaith i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Fe wnaethom ystyried effaith polisiau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg, yn y sector AU yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag [equality@hefcw.ac.uk](mailto:equality@hefcw.ac.uk) i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith. Rydym yn annog darparwyr addysg uwch ac Undebau Myfyrwyr yn gryf i sicrhau asesiadau parhaus o'r effaith ar gydraddoldeb wrth ddefnyddio'r dyraniad hwn.
33. Canfyddiadau cychwynnol ein hasesiad effaith yw y dylai'r dyraniad hwn wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gynyddu adnoddau ar gyfer llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl a chymorth i fyfyrwyr. Mae'r dyraniad yn gyson â blaenoriaethau presennol CCAUC a darparwyr mewn perthynas â llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl a chymorth i fyfyrwyr. Gallai'r defnydd o'r cyllid hwn gael effeithiau cadarnhaol arbennig ar y canlynol, ymhlith ymgeiswyr a myfyrwyr eraill:
  - cefnogi menywod yr effeithiwyd arnynt gan drais, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan gydnabod y gallai fod effaith debyg ar bobl eraill sydd wedi cael y profiadau hyn;

- cefnogi pobl o gymunedau ethnig lleiafrifol, pobl ag anableddau, myfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, pobl â phrofiad o fod mewn gofal neu gyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys ymgeiswyr a myfyrwyr sy'n rhieni, myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr ôl-radd;
- gwella ac estyn gwybodaeth, cyngor, adnoddau a chymorth yn y Gymraeg.

34. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol o ganlyniad i'r dyraniad hwn wedi cael eu hadnabod ar yr adeg hon. Mae ein hasesiad effaith cychwynnol yn cadarnhau bod ein cylchlythyr cyfarwyddyd gyda'r dyraniad hwn yn hybu cydweithio ac ymwneud gan Undebau Myfyrwyr, myfyrwyr â phrofiad o bwysau ariannol a myfyrwyr ag ystod o gefndiroedd/profiadau, yn unol â'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn hybu integreiddio trwy argymhell cysondeb â strategaethau llesiant ac iechyd a chynlluniau cyflawni a monitro cyfunol. Byddwn yn parhau i asesu effaith y cyllid hwn gan gynnwys trwy fonitro ac adrodd wrth Lywodraeth Cymru.



Astudiaeth ddichonoldeb o fodel iechyd  
meddwl myfyrwyr a gyllidir â grant gan  
CCAUC:  
Canllawiau a manyleb y grant

**Gorffennaf 2023**



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

[www.hefcw.ac.uk](http://www.hefcw.ac.uk)

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English  
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays  
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

**Canllawiau ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb o fodel iechyd meddwl myfyrwyr a gyllidir â grant gan CCAUC i archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno model Gwasanaeth Cyswllt Prifysgolion ar gyfer Materion Iechyd Meddwl ledled Cymru.**

**Crynodeb a Manyleb**

Dyddiad cyflwyno'r cynnig	
Dull cyflwyno i CCAUC	Trwy'r e-bost i: <a href="mailto:ryan.stokes@hefcw.ac.uk">ryan.stokes@hefcw.ac.uk</a>

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn ceisio cyllido astudiaeth ddichonoldeb iechyd meddwl myfyrwyr â grant i ddarparu rhagor o wybodaeth a sicrwydd ar gyfer CCAUC ac, yn ddiweddarach, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn goleuo ymateb CCAUC i'r argymhelliad yn adroddiad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru ar Gymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch i:

*'adeiladu ar y dysgu a'r gwerthusiad o'r Gwasanaeth Cyswllt Prifysgolion ar gyfer Materion Iechyd Meddwl yng Nghaerdydd a dechrau cynllunio ar gyfer cyflwyno'r model hwn yn llawn ledled Cymru. Fel rhan o'r gwaith cynllunio hwn, dylai cyllid hirdymor gael ei ymrwymo i gefnogi'r gwaith o gyflwyno, datblygu a chynnal a chadw'r model hwn ledled Cymru'.*

- 1.2 Dylai'r astudiaeth ddichonoldeb ystyried model peilot y Gwasanaeth Cyswllt Prifysgolion ar gyfer Materion Iechyd Meddwl a gyllidwyd gan CCAUC. Dylai'r astudiaeth ddichonoldeb ddarparu dadansoddiad manwl ar gyfer CCAUC sy'n ystyried yr holl agweddau tyngedfennol ar brosiect arfaethedig er mwyn pennu'r tebygolrwydd y byddai proses wedi'i chyllido i gyflwyno model iechyd meddwl myfyrwyr ledled Cymru gyfan<sup>1</sup> yn llwyddo.

## 2. Cefndir

- 2.1 Fe wnaeth CCAUC gyllido Partneriaeth Iechyd Meddwl De Ddwyrain Cymru i ddatblygu cynllun peilot y Gwasanaeth Cyswllt Prifysgolion ar gyfer Materion Iechyd Meddwl (MHULS) i gefnogi myfyrwyr â symptomau cymedrol/ cymhleth hirdymor. Cynhaliwyd y cynllun peilot o 2019/20 ac fe gafodd CCAUC werthusiad terfynol y prosiect ym mis Ionawr 2024.
- 2.2 Mae Partneriaeth Iechyd Meddwl De Ddwyrain Cymru a'r Gwasanaeth Cyswllt Prifysgolion ar gyfer Materion Iechyd Meddwl (MHULS) wedi aros yn eu lle ers mis Rhagfyr 2022 gyda chyllid gan y pedair prifysgol sy'n bartneriaid<sup>2</sup>.
- 2.3 Fe gyflwynodd y Partneriaeth arfarniad amlinellol o'r opsiynau ar gyfer Cymru gyfan i ni ym mis Mawrth 2023. Er bod y cynnig yn gyfyngedig o ran ei fanylder ac nad oedd wedi'i gostio'n llawn, roedd CCAUC yn cydnabod bod angen adnoddau pellach i gynhyrchu astudiaeth ddichonoldeb gynhwysfawr i oleuo penderfyniadau cyllido pellach.
- 2.4 Mae CCAUC yn cydnabod y bydd model cydwasanaeth iechyd meddwl myfyrwyr cydweithredol cynaliadwy ym maes Gofal Sylfaenol (model cydwasanaeth) yn galw am ymrwymiad cyllido hirdymor, ychwanegol sy'n ymestyn y tu hwnt i'w gyfnod gweithredu ac i mewn i gyfnod gweithredu'r Comisiwn Addysg Drydyddol

---

<sup>1</sup> Yn y cyd-destun hwn mae'r model iechyd meddwl myfyrwyr yn cyfeirio at fodel sy'n cefnogi myfyrwyr â symptomau cymedrol/ cymhleth hirdymor

<sup>2</sup> Prifysgol Caerdydd (Partner Arweiniol), Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol De Cymru a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

ac Ymchwil (CADY). Dylai'r astudiaeth ddichonoldeb gyfrannu at sylfaen dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau polisi a chyllido pellach.

### **3. Hyd**

- 3.1 Dylai'r astudiaeth ddichonoldeb gael ei chynnal rhwng 1 Awst 2023 a 31 Ionawr 2024.

### **4. Amserlen**

<b>Gweithgaredd</b>	<b>Erbyn pa ddyddiad</b>
Dyfarnu cyllid	1 Awst 2023
Strwythur Llywodraethu arfaethedig ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb	31 Awst 2023
Llinell amser cynllun dichonoldeb 5 mis a chyllideb weithredu	31 Awst 2023
Adroddiad interim sy'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"><li>• arfarniad o'r opsiynau ar gyfer rheoli a chyllido'r model cenedlaethol</li><li>• datganiadau o ddiddordeb wedi'u llofnodi</li><li>• diweddariad cyffredinol ar y cynnydd.</li><li>• asesiad o unrhyw waith parhad y bydd angen iddo gael ei wneud gan y partner arweiniol yn dilyn cwblhau'r astudiaeth ddichonoldeb gan gynnwys gweithgareddau ac allbynnau arfaethedig a'r costau cysylltiedig (i'w wneud rhwng mis Chwefror 2024 a mis Gorffennaf 2024)</li></ul>	31 Hydref 2023
Seminar cyfnewid gwybodaeth ar-lein ar gyfer SAUau a phartïon eraill â buddiant.	10 Tachwedd 2023
Adroddiad terfynol i CCAUC	31 Ionawr 2024

### **5. Manyleb o'r gofynion**

- 5.1 Dylai'r astudiaeth ddichonoldeb hon ddarparu dadansoddiad manwl o'r ffactorau llwyddiant tyngedfennol, gan gynnwys adnoddau, sy'n ofynnol i oleuo proses lwyddiannus bosibl i gyflwyno model cydwasanaeth iechyd meddwl myfyrwyr cydweithredol ym maes gofal sylfaenol (model cydwasanaeth) ledled Cymru ynghyd ag asesiad o 'barodrwydd' yn seiliedig ar dystiolaeth.
- 5.2 Rhaid i'r astudiaeth ddichonoldeb ystyried y gofynion canlynol:

## Datganiadau o Ddiddordeb ac Ymwneud

- 5.3 Darparwch ddatganiad o ddiddordeb ac ymwneud<sup>3</sup>, neu fel arall, gan yr holl bartneriaid o blith SAUau a'r GIG ar gyfer model cydwasanaeth iechyd meddwl myfyrwyr cydweithredol ym maes gofal sylfaenol (model cydwasanaeth) a hwnnw'n cynnwys:
- mabwysiadu partneriaethau iechyd meddwl myfyrwyr rhanbarthol rhwng SAUau a'r GIG;
  - cyflwyno model cydwasanaeth iechyd meddwl myfyrwyr ar y cyd rhwng SAUau a'r GIG ym maes gofal sylfaenol (model cydwasanaeth); a
  - ymrwymiad yn 2023/24 i weithio gyda phartner arweiniol yr astudiaeth ddichonoldeb a dyrannu pwynt cyswllt a enwir ymhlith y prifysgolion a phwynt cyswllt a enwir yn y GIG.

### Allbwn

- datganiad o ddiddordeb ac ymwneud wedi'i lofnodi gan Is-Gangellorion Prifysgolion ac uwch staff y GIG

## Arfarniad o'r opsiynau ar gyfer fframwaith rheoli a chyllido'r Rhaglen Genedlaethol

- 5.4 Dadansoddwch y potensial, gyda sylfaen dystiolaeth eglur ac arfarniad o'r opsiynau, ar gyfer fframwaith rheoli a chyllido cenedlaethol cost-efeithiol a chynaliadwy ledled Cymru gyfan.
- 5.5 Rhaid i'r dadansoddiadau ystyried costau, staffio, manteision, heriau, risgiau, adroddiadau, perfformiad a deilliannau i gyllidwyr a chael eu goleuo gan farn partneriaid ledled Cymru ynglŷn â'r fframwaith rheoli a chyllido canlynol:
- Swyddfa Rhaglen Partneriaethau Iechyd Meddwl Myfyrwyr Cymru Gyfan (un partner arweiniol o blith SAUau a gyllidir ar gyfer yr holl bartneriaethau rhanbarthol ledled Cymru).
  - Fframwaith cydweithredol datganoledig Rhaglen Partneriaethau Iechyd Meddwl Myfyrwyr Cymru Gyfan (un partner arweiniol o blith SAUau a gyllidir ym mhob partneriaeth ranbarthol).
  - Fframwaith datganoledig Rhaglen Partneriaethau Iechyd Meddwl Myfyrwyr Cymru Gyfan (SAUau a gyllidir yn unigol sy'n cyfrannu at bob partneriaeth).

### Allbwn

Adroddiad interim sy'n cynnwys ymateb i baragraffau 6.3 i 6.5

---

<sup>3</sup> Mae Datganiad o Ddiddordeb ac Ymwneud yn golygu: datganiad wedi'i lofnodi sy'n mynegi diddordeb mewn mabwysiadu partneriaeth strategol rhwng partneriaid o blith SAUau a'r GIG; cyflwyno model cydwasanaeth iechyd meddwl myfyrwyr ar y cyd rhwng SAUau a'r GIG ym maes gofal sylfaenol (model cydwasanaeth) ac ymrwymiad i weithio gyda phartner arweiniol yr astudiaeth ddichonoldeb a dyrannu pwynt cyswllt a enwir ymhlith y prifysgolion a phwynt cyswllt a enwir yn y GIG.

## Strwythur llywodraethu'r partneriaethau rhanbarthol

- 5.6 Cynhyrchwch strwythurau llywodraethu drafft dangosol ar gyfer y partneriaethau rhanbarthol, y mae'r holl bartneriaid yn cytuno â hwy, gan gynnwys:
- Archwilio a datblygu strwythurau grŵp cynghori drafft ar gyfer partneriaethau rhanbarthol sy'n sicrhau cynrychiolydd priodol o bob partner.
  - Adnabod aelodau allweddol o staff a gweithio gydag Undebau Myfyrwyr (a chan gynnwys myfyrwyr â phrofiad personol o wasanaethau iechyd meddwl) i ystyried llais myfyrwyr.
  - Datblygu strwythur grŵp cynghori wedi'i gostio'n llawn ar gyfer pob partneriaeth ranbarthol.

## Model cydwasanaeth

- 5.7 Cynhaliwch ymarfer mapio daearyddol cynhwysfawr i:
- Adnabod lleoliadau posibl ar gyfer model cydwasanaeth rhwng SAUau a'r GIG.
  - Gwerthuso olion traed partneriaethau rhanbarthol rhwng y GIG a SAUau a pherthnasoedd presennol i oleuo proses bosibl i gyflwyno model cydwasanaeth ledled Cymru. Gan gynnwys dadansoddi campysau rhanbarthol SAUau ac olion traed Byrddau Iechyd.
  - Archwilio ac asesu dichonoldeb model cydwasanaeth sydd â'r potensial i fyfyrwyr sy'n dysgu o bell sy'n huanu o Gymru (megis myfyrwyr y Brifysgol Agored) gael mynediad at gymorth.
- 5.8 Archwilio'r ffactorau llwyddiant tyngedfennol yn llawn a dangos tystiolaeth ohonynt, gan gynnwys cynaliadwyedd, costau, manteision, heriau a risgiau, yn ogystal ag awch a pharodrwydd partneriaid, ac gyfer y canlynol:
- Proses gyfamserol lawn i gyflwyno model cydwasanaeth ledled Cymru.
  - Cyflwyno model cydwasanaeth yn raddol, gan archwilio gwahanol fathau o brosesau cyflwyno'n raddol, gan gynnwys cyflwyno fesul partneriaeth ranbarthol a dull graddol yn y partneriaethau rhanbarthol.
- 5.9 Archwilio gofynion staff posibl ar gyfer model cydwasanaeth rhwng SAUau a'r GIG yn llawn, gan gynnwys ystyried proses bosibl i'w gyflwyno'n raddol, gan gynnwys:
- Datblygu strwythur staffio arfaethedig gyda phartneriaid ar gyfer model cydwasanaeth clinigol pob partneriaeth ranbarthol ym maes gofal sylfaenol yn seiliedig ar dystiolaeth o'r angen.
  - Datblygu strwythur gweithredu staff wedi'i gostio'n llawn ar gyfer pob partneriaeth ranbarthol ar gyfer staff ychwanegol, gan gynnwys staff anghlinigol. Ni ddylai'r astudiaeth ddichonoldeb gynnwys costau ar gyfer cymorth myfyrwyr cyffredinol neu benodol presennol a gontractir gan SAUau.
  - Datblygu graddfa amser recriwtio arfaethedig ar gyfer strwythur gwasanaeth pob partneriaeth ranbarthol, gan ystyried prosesau recriwtio a pharodrwydd partneriaethau rhanbarthol i ymgysylltu â phroses gyflwyno.
  - Cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant a darparu gofynion hyfforddiant wedi'u costio'n llawn fesul rhanbarthol partneriaeth.

- 5.10 Aseswch ddichonoldeb gweithredu cytundebau rhannu data gyda phob partneriaeth ranbarthol trwy:
- Asesu'r cyfleoedd, materion a risgiau rhwng pob prifysgol a bwrdd iechyd o ran mabwysiadu cytundebau rhannu data mewn perthynas ag achosion myfyrwyr perthnasol y mae'n rhaid iddynt gynnwys casglu data, systemau TG, ystyriaethau o ran y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ac asesiadau o'r effaith ar ddata
  - Dangos tystiolaeth o barodrwydd partneriaethau i weithredu trefniadau rhannu data, gan gynnwys adolygu defnydd presennol o ddata i sicrhau cysondeb.
- 5.11 Dadansoddwch y potensial, gyda sylfaen dystiolaeth eglur ac arfarniad o'r opsiynau, ar gyfer swyddogaeth lletya data cenedlaethol fforddiadwy a chynaliadwy a chyfleoedd ar gyfer data GIG a SAUau wedi'i gysylltu, gan ystyried costau, staffio, manteision, heriau, risgiau, gofynion cyfreithiol gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a strwythurau adrodd.
- 5.12 Cynhaliwch ddadansoddiad ariannol llawn y mae'n rhaid iddo gynnwys:
- Cynhyrchu amcanestyniadau a llinellau amser arfaethedig i adnabod costau datblygu (cyn cyflwyno), gweithredu (y flwyddyn academaidd gyntaf) a chynnal (amcanestyniadau blynyddol parhaus ar gyfer pum mlynedd) ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â gofynion paragraffau 6.5, 6.7 a 6.9, a 6.14 a'r canlynol:
    - pob partneriaeth ranbarthol;
    - model cydwasanaeth pob partneriaeth ranbarthol gan gynnwys, ymhlith elfennau eraill, staffio, systemau, cyfathrebu a marchnata, cyngor cyfreithiol, adnoddau, costau lleoliad, seilwaith galluogol – TG, Ciyweledol a thelathrebu, cyfieithu a theithio; ac
    - amcanestyniadau a llinellau amser ar wahân ar gyfer amryw brosesau gweithredu graddol.
- 5.13 Dadansoddiad o'r anghenion a oleuwyd gan ddata y mae'n rhaid iddo gynnwys:
- Adnabod anghenion hyfforddiant staff yn barod ar gyfer mabwysiadu'r matrices difrifoldeb a chodau rhesymau gan SAUau a phartion eraill â buddiant.

## **6. Allbynnau**

- 6.1 Rhaid i'r Partner Arweiniol (Prifysgol Caerdydd):
- Gydlynwch a chyflwynwch inni gadarnhad neu fel arall Is-Gangellorion Partneriaeth Iechyd Meddwl De Ddwyrain Cymru o'u hymrwymiad parhaus i barhau i gyllido eu model partneriaeth presennol yn 2023/24.
  - Cadarnhau cytundeb â thelerau ac amodau'r cyllid grant i alluogi'r astudiaeth ddichonoldeb i ddechrau ym mis Awst 2023
  - Cyflwyno'r canlynol i CCAUC:
    - strwythur llywodraethu arfaethedig ar gyfer rheoli'r astudiaeth ddichonoldeb erbyn 31 Awst 2023;
    - llinell amser cynllun ddichonoldeb pum mis a chyllideb weithredu erbyn 31 Awst 2023;

- adroddiad interim a hwnnw'n cynnwys datganiad o ddi-ddordeb ac ymwneud wedi'i lofnodi gan Is-Gangellorion y Prifysgolion ac uwch staff y GIG sydd â chyfrifoldeb am gyllidebau ac arfarniad o'r opsiynau ar gyfer fframwaith rheoli a chyllido cenedlaethol erbyn 31 Hydref;
- asesiad o unrhyw waith parhad y bydd angen iddo gael ei wneud gan y partner arweiniol yn dilyn cwblhau'r astudiaeth ddichonoldeb gan gynnwys gweithgareddau ac allbynnau arfaethedig a'r costau cysylltiedig (ar gyfer y cyfnod rhwng mis Chwefror 2024 a mis Gorffennaf 2024) erbyn 31 Hydref 2023.
- adroddiad terfynol yr astudiaeth ddichonoldeb erbyn 31 Ionawr 2024 y mae'n rhaid iddo gynnwys yr holl ofynion a nodir ym mharagraffau 6.3 i 6.13, 'asesiad o barodrwydd' sy'n seiliedig ar dystiolaeth a hysbysu ynghylch unrhyw wersi perthnasol ychwanegol nad ydynt wedi'u cynnwys gan y fanyleb;
- cofnodion cyfarfodydd rheolaidd grŵp llywio'r astudiaeth ddichonoldeb
- Cynnal asesiadau parhaus o effaith prosesau perthnasol ar gydraddoldeb.
- Rhoi sylw dyladwy i ofynion o ran y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg ar gyfer pob sefydliad ac anghenion myfyrwyr, ar gyfer pob cyfnod yn y broses gyflwyno.
- Cydlynu seminar cyfnewid gwybodaeth ar-lein ar gyfer SAUau a phartïon eraill â buddiant erbyn 10 Tachwedd 2023.

## 7. Gofynion Eraill

- 7.1 Rhaid i'r partner Arweiniol ar ran Partneriaeth Iechyd Meddwl De Ddwyrain Cymru (Prifysgol Caerdydd):
- Sicrhau cyfathrebu priodol ac amserol gyda CCAUC, fel bod rhwymedigaethau a amlinellir yn y ddogfen fanyleb hon yn cael eu cyflawni a bod yr astudiaeth yn mynd rhagddi yn ôl y disgwyl o ran cwmpas, cyllideb/gwariant ac amser.
  - Darparu adroddiadau boddhaol a seiliedig-ar-dystiolaeth ar gyfer CCAUC gan ymateb yn llawn i'r gofynion yng nghanllawiau'r cyllid grant
  - Bodloni'r telerau ac amodau, gan gynnwys gofynion adrodd a nodir yn y llythyr dyrannu grant.



## Rhestr o derminoleg

## Atodiad A

Terminoleg	Disgrifiad
<b>Fframwaith rheoli a chyllido'r Rhaglen Genedlaethol</b>	<p>Mae <b>fframwaith rheoli a chyllido'r</b> Rhaglen Genedlaethol yn darparu strwythur i alluogi'r cyllidwr i wneud taliad(au) grant, cael adroddiadau a monitro perfformiad/deilliannau trwy un o'r trefniadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• un partner arweiniol o blith SAUau a gyllidir ledled Cymru sy'n gweithio ar draws yr holl bartneriaethau rhanbarthol (Swyddfa'r Rhaglen Genedlaethol)</li> <li>• un partner arweiniol o blith SAUau a gyllidir ym mhob partneriaeth ranbarthol</li> <li>• SAUau a gyllidir yn unigol sy'n cyfrannu at bob partneriaeth</li> </ul>
<b>Partneriaeth ranbarthol</b>	<p>Mae Partneriaeth ranbarthol yn darparu strwythur llywodraethu rhanbarthol ar gyfer y broses genedlaethol i gyflwyno'r model cydwasanaeth ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth briodol o blith prifysgolion, y GIG a llais myfyrwyr sydd â phrofiad personol.</p>
<b>Grŵp cynghori partneriaeth ranbarthol</b>	<p>Aelodau o'r bartneriaeth ranbarthol sy'n dal swyddi priodol ym mhob prifysgol ac yn y GIG ac sydd â chynrychiolaeth o blith myfyrwyr â phrofiad personol</p>
<b>Model cydwasanaeth</b>	<p>Model cydwasanaeth iechyd meddwl myfyrwyr cydweithredol ym maes gofal sylfaenol</p>

## Dyraniad ar gyfer llesiant ac iechyd, gan gynnwys iechyd meddwl a chymorth ariannol ychwanegol, 2023/24

Darparwr	Dyraniad 2023/24 £
Prifysgol De Cymru	360,658
Prifysgol Aberystwyth	115,144
Prifysgol Bangor	163,947
Prifysgol Caerdydd	528,071
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	233,145
Prifysgol Abertawe	347,383
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	196,742
Prifysgol Wreccsam	107,648
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	229,491
Grŵp Llandrillo Menai	14,243
Grŵp Colegau NPTC	2,780
Coleg Gŵyr Abertawe	750
Cyfanswm	2,300,000

### Nodiadau

- Mae'r dyraniad i Brifysgol De Cymru'n cynnwys dyraniad o £13,759 i Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
- Daw'r data o gofnod myfyrwyr HESA 2021/22. Mae'r dyraniadau hyn yn defnyddio data wedi'i ddilysu
- Mae poblogaeth gofrestru safonol HESA wedi'i lleihau i gyfrif pennau
- Mae pob dull a lefel astudio wedi cael eu cymryd i ystyriaeth
- Mae'r holl wledydd y mae myfyrwyr yn hanu ohonynt wedi cael eu hystyried.

**Proses derfynol gan CCAUC ar gyfer colegau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol i fonitro dyraniadau a ddarparwyd trwy gylchlythyr 2023/24 Llesiant ac iechyd a chymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr addysg uwch**

**Templed ar gyfer datganiad monitro a sicrwydd terfynol ac astudiaethau achos**

**I'w gyflwyno i CCAUC erbyn 27 Medi 2024**

**Dylid ei gyflwyno i: [amanda.phillips@hefcw.ac.uk](mailto:amanda.phillips@hefcw.ac.uk)**

---

Ym mis Medi 2023, fe wnaethom ddyrannu £2.3m a gafwyd trwy ddyraniad llythyr cylch gwaith ychwanegol i ni. Fe wnaethom ddyrannu'r cyllid i brifysgolion a cholegau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol i gefnogi llesiant ac iechyd gyda phwyslais penodol ar fesurau i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw. Dylai'r broses fonitro hon roi cyfrif am gyflawni a chyfanswm gwariant gan golegau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol.

Fe wnaeth cylchlythyr 2023/24 a oedd yn dyrannu £2.3m gadarnhau diben y cyllid a'n prosesau monitro ni i'n galluogi i adrodd wrth Lywodraeth Cymru. Caiff dyraniadau cyllid sefydliadau eu darparu yn y cylchlythyr hwnnw yn **Atodiad B**.

Cwblhewch y canlynol:

Rhan un – manylion y sefydliad, asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, cynnwys myfyrwyr a gweithgareddau a gynhaliwyd

Rhan dau – gwybodaeth am weithgareddau a gwasanaethau a gefnogwyd, canlyniadau a monitro ariannol

Rhan tri – astudiaethau achos

Rhan pedwar – llofnod sicrwydd (y Pennaeth)

Rhan un - manylion y sefydliad, asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, cynnwys myfyrwyr a gweithgareddau a gynhaliwyd

<b>Enw'r sefydliad:</b>	
<b>Enw a chyfeiriad e-bost y cyswllt</b>	
<b>Dyraniad – gweler Atodiad B sy'n cydfynd â'r cylchlythyr</b>	£
<b>Eglurwch:</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>i. sut y mae asesiad parhaus y sefydliad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi goleuo'r gweithgareddau, gwasanaethau neu adnoddau? a</li> <li>ii. beth oedd y canfyddiadau allweddol a sut y cawsant eu cymryd i ystyriaeth?</li> </ul>	
<b>(Dim mwy na 250 o eiriau ar y cyfan)</b>	

<b>Eglurwch:</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>i. sut y mae myfyrwyr wedi cael eu cynnwys wrth gytuno a datblygu'r gweithgareddau a/neu wasanaethau, hyfforddiant ac adnoddau a gyllidwyd; a</li> <li>ii. y gwahaniaeth y mae'r cyllid hwn wedi ei wneud i lesiant ac iechyd myfyrwyr?</li> </ul>	
<b>(Dim mwy na 500 o eiriau ar y cyfan)</b>	

**A fydd unrhyw weithgareddau a/neu wasanaethau a gefnogwyd o'r cyllid hwn yn parhau a/neu a fydd unrhyw wersi ohonynt yn cael eu gwreiddio mewn cymorth ar gyfer llesiant ac iechyd myfyrwyr yn y dyfodol? Os felly, eglurwch pa weithgareddau a/neu wasanaethau a sut y byddant yn cael eu cefnogi.**

**(Dim mwy na 250 o eiriau ar y cyfan)**

### **Rhan Dau - gwybodaeth am weithgareddau a gwasanaethau a gefnogwyd, canlyniadau a monitro ariannol**

#### **Gweithgareddau a gwasanaethau a gefnogwyd, / canlyniadau a monitro ariannol**

Cwblhewch y daenlen sydd wedi'i hatodi (**Atodiad 1**) â'r wybodaeth ganlynol:

- Teitl y gweithgaredd
- Disgrifiad o bob gweithgaredd, hyfforddiant, gwasanaeth neu adnodd a gyllidwyd.
- Categorioidio'r gweithgaredd, gwasanaeth, hyfforddiant neu adnodd arall gan ddefnyddio'r gwymplen a ddarperir yn y daenlen. Dewiswch y categori mwyaf priodol a pheidwch ag ailadrodd yr un gweithgaredd, gwasanaeth, canlyniad dan fwy nag un categori.
- Gweithgaredd, hyfforddiant, gwasanaeth neu adnodd ar gael yn Gymraeg.
- Niferoedd y myfyrwyr/staff a gefnogwyd ar gyfer pob gweithgaredd (lle y bo'n berthnasol)
- gwariant hyd at 31 Gorffennaf 2024 (£) ar gyfer pob gweithgaredd, hyfforddiant, gwasanaeth neu adnodd (Rhaid i'r holl wariant gael ei dalu'n llawn erbyn 31 Gorffennaf 2024)

Cyfanswm gwariant (Rhaid i'r holl wariant gael ei ddyrannu'n llawn erbyn 31 Gorffennaf 2024)

£

Cyfanswm gwariant heb ei neilltuo o ran y sefyllfa ar 31 Gorffennaf 2024 (£)  
(a allai gael ei adfachu)

Defnyddiwn y term 'cyllid wedi'i neilltuo' i olygu cyllid y mae'r coleg wedi ei wario'n llawn ac na all ei adhawlio. Efallai na fydd anfoneb wedi cael ei chyflwyno am gyllid sydd wedi'i neilltuo neu efallai y bydd y taliad yn aros i gael ei wneud ond bydd wedi cael ei gyflawni yn 2023/24. Lle mae gweithgaredd yn mynd i gael ei gyflawni yn 2024/25 dylai gael ei gyllido o ddyraniadau 2024/25 ac nid o ymrwymadau cyllido 2023/24.

### Rhan Tri – Astudiaethau Achos

Darparwch astudiaethau achos i enghreifftio'r gweithgareddau a/neu wasanaethau a gefnogwyd â'r cyllid hwn. Nid oes disgwyl i golegau sy'n cael isafswm y cyllid gyflwyno mwy nag un astudiaeth achos.

**Rhaid i astudiaethau achos beidio ag enwi unigolion.** Rhaid i golegau sicrhau bod gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data'n cael eu dilyn wrth gyflwyno astudiaethau achos i CCAUC. Efallai y byddwn yn rhannu'r astudiaethau achos gyda Llywodraeth Cymru a/neu'n eu cyhoeddi i rannu arfer. Hefyd, os oes gan golegau unrhyw adnoddau newydd neu arloesol neu wybodaeth am hyfforddiant a ddarparwyd gan asiantaethau allanol y maent hwy'n gallu eu rhannu'n fwy eang gyda'r sector darparwch ddolennu a/neu ragor o wybodaeth os gwelwch yn dda.

#### **Astudiaethau achos: dyblygwch y templed astudiaeth achos fel y bo angen**

Cynhwyswch enw'r gweithgaredd neu'r gwasanaeth, categori'r gweithgaredd a disgrifiwch y gweithgaredd neu'r gwasanaeth, gan gynnwys y niferoedd yr ymgysylltwyd â hwy ac eglurwch sut y mae'r gweithgaredd neu'r gwasanaeth wedi bod o fudd i lesiant ac iechyd myfyrwyr.  
Uchafswm o 300 o eiriau ar y cyfan

--

**Rhan Pedwar – Llofnod Sicrwydd (y Pennaeth)**

<b>Llofnod (y Pennaeth):</b>		<b>Dyddiad:</b>	
<b>Enw, mewn llythrennau breision</b>			
<p>Trwy lofnodi a chyflwyno'r datganiad monitro a sicrwydd terfynol hwn, mae'r sefydliad yn darparu cadarnhad bod y cyllid a ddyrannwyd wedi cael ei wario fel a nodir yn y templed hwn ac wedi cael ei ddefnyddio at y dibenion ac o fewn y paramedrau a nodwyd yng nghylchlythyr perthnasol CCAUC yn dyrannu £2.3m yn 2023/24. Ar gyfer dyraniad y sefydliad gweler <b>Atodiad B</b> sy'n cyd-fynd â'r cylchlythyr perthnasol.</p>			

	Teitl y gweithgaredd, yr hyfforddiant, y gwasanaeth neu'r adnodd	Disgrifiad byr o bob gweithgaredd, hyfforddiant, gwasanaeth neu adnodd a gyllidwyd 25 o eiriau (uchafswm)	Maes blaenoriaeth (Dewiswch y disgrifiydd priodol o'r gwymplen) A – Gwella gwasanaethau cyngor a gwybodaeth ariannol mewn AU. B – Hyrwyddo gwasanaethau cyngor a gwybodaeth ariannol mewn AU, gan gynnwys i AU. C- Rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr trwy estyn cyllid caledi neu adnoddau eraill i gefnogi'r rhai sy'n profi pwysau ariannol. D- Cefnogi darpar ymgeiswyr ac ymgeiswyr sy'n pontio i ddarpariaeth addysg uwch – yn ogystal â myfyrwyr presennol. E- Mesurau i helpu i fynd i'r afael â phwysau costau byw ar ddarpar ymgeiswyr a myfyrwyr o bob oed – yn enwedig y rhai sy'n pontio i addysg uwch. F- Estyn, gwella neu ddarparu cymhorthdal ar gyfer cynhyrchion urddas mislif a hylendid personol a/neu wasanaethau golchi dillad i fyfyrwyr.	Gwariant 31 Gorffennaf 2024 (£) am bob gweithgaredd, hyfforddiant, gwasanaeth neu adnodd (Rhaid i'r holl wariant gael ei dalu'n llawn erbyn 31 Gorffennaf 2024)	Gweithgaredd, gwasanaeth, hyfforddiant neu adnodd ar gael yn Gymraeg (Defnyddiwch y gwymplen (Y)-ydy, (N) - Nac ydy, (Amh.) Amherthnasol	Niferoedd y myfyrwyr a gefnogwyd ar gyfer pob gweithgaredd, hyfforddiant, gwasanaeth neu adnodd (Ile y bo'n berthnasol)	Niferoedd y staff a gefnogwyd ar gyfer pob gweithgaredd, hyfforddiant, gwasanaeth neu adnodd (Ile y bo'n berthnasol)
1				£			
2				£			
3				£			
4				£			
5				£			
6				£			
7				£			
8				£			
9				£			
10				£			

Cyfanswm

0